# Tasg 1

**(Heriol, sbardun 1)**

**TASGAU DARLLEN A DEALL**

**Tasg 1**

Rhowch **Cywir** neu **Anghywir** wrth ochr bob un o'r gosodiadau hyn:

1. Mae copïo'n cael ei ystyried yn beth gwael fel arfer.
2. Mae copïo cynllun gwisg yn anghyfreithlon.
3. Mae rhoi label ffug ar ddilledyn yn anghyfreithlon.
4. Os yw dillad cynllunydd yn cael eu copïo, mae statws y cynllunydd yn codi.
5. Dydy copïo ddim yn beth da i'r cwsmer cyffredin.
6. Mae ffasiwn bob amser yn aros yn yr unfan.
7. Mae gwerthu dillad yn dibynnu ar gael ffasiynau newydd.
8. Dydy cynllunwyr byth yn edrych yn ôl i'r gorffennol wrth feddwl am syniadau newydd.

**Tasg 2**

Darllenwch y darn yn ofalus, yna rhowch frawddeg sy'n esbonio yn **eich geiriau eich hun** beth sy'n cael ei ddweud am y canlynol (mae'r cyntaf wedi'i wneud i chi):

i) Yr Oscars – *Mae cynllunwyr yn cael syniadau am wisgoedd wrth weld dillad y sêr yn yr Oscars.*

ii) Duges Caergrawnt

iii) anghyfreithlon

iv) label Prada ffug

v) heb wario ffortiwn

vi) aros yn ffasiynol

vii) edrych i'r gorffennol

**Tasg 3 – Geirfa ac idiomau**

1. Chwiliwch am **ddau ymadrodd** yn yr **ail** baragraff sydd â'r ystyr 'yn fuan iawn'.

.....................................................................

...................................................................

2. Chwiliwch am **un gair** bob tro sy'n golygu:

| | | |
|---|---|---|
| a) | hapus | ................................... |
| b) | ddim yn gyfreithlon | ................................... |
| c) | ddim yn rhywbeth go iawn | ................................... |
| ch) | rhywbeth sy'n rhoi syniad i chi/yn eich ysgogi | ................................... |
| d) | cyfnod o amser sydd wedi mynd | ................................... |